# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023

Amser: 09.20 - 09.49

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Russell George AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Alun Davidson, Gwasanaeth Trawsnewid Strategol<br>Stephen Davies, Y Gwasanaethau Cyfrieithiol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar, roedd Russell George yn bresennol yn ei le. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Jane Dodds a'r Dirprwy Lywydd

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)~~ – *Tynnwyd Yn Ôl*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.30pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023**

- Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 17 Ionawr 2024 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Delyth Jewell (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Cais i amserlennu dadl ar Gynnig Heb Ddyddiad Trafod 8411

Datganodd Lesley Griffiths fuddiant fel Aelod o'r Senedd dros Wrecsam.

Nododd y Pwyllgor Busnes gais gan Llyr Gruffydd AS a Sam Rowlands AS i amser gael ei ddyrannu i ddadl ar NNDM8411 yn ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd. Nododd y Llywydd ei bod wedi gofyn am gyngor ar oblygiadau achosion cyfreithiol cyfredol ac y byddai angen ystyried y cyngor hwn cyn unrhyw benderfyniad ynghylch amserlennu dadl. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at y mater pan fyddai cyngor pellach wedi dod i law.

### 3.5 Cynigion Deddfwriaethol Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol ar 13 Rhagfyr 2023:

**Jack Sargeant**

**NNDM8419**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoleiddio casglwyr dyledion yng Nghymru ymhellach.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio casglwyr dyledion sydd wedi cofrestru i god ymddygiad sy'n amddiffyn pobl fregus mewn argyfwng costau byw yn unig;

b) cyflwyno cod ymddygiad Cymru gyfan ar gyfer yr holl asiantau casglu dyledion sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru; ac

c) grymuso awdurdodau safonau masnach lleol ymhellach i weithredu yn erbyn asiantau sy'n camarwain preswylwyr ynghylch eu pwerau a hawliau preswylwyr.

A'r cynnig canlynol ar gyfer 17 Ionawr 2024:

**Delyth Jewell**

**NNDM8370**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar sicrwydd hinsawdd i blant a phobl ifanc.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 i sicrhau bod y cwricwlwm ysgol yn cynnwys dealltwriaeth o ddifrifoldeb a brys yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol fel cysyniad allweddol ar draws pob maes dysgu a phrofiad;

b) sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu brys ac anghenraid mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ecolegol;

c) sicrhau nad yw addysgu o'r fath wedi'i gyfyngu i bynciau traddodiadol sy'n cwmpasu'r maes hwn, ond wedi'i wreiddio ar draws pob maes dysgu a phrofiad;

d) cydnabod pwysigrwydd dysgu isganfyddol a hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy lle y gall dysgu ddigwydd; ac

e) dechrau mynd i'r afael â phryder hinsawdd ymhlith plant a phobl ifanc.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch slotiau cyfarfod

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais i'r Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 gwrdd ar 30 Ionawr a 6 Chwefror 2024.

## 5 Amserlen y Senedd

### 5.1 Dyddiadau Toriadau

Trafododd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad Hanner Tymor y Sulgwyn a Thoriad yr Haf 2024, a chytunodd arnynt, a chytunodd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer Hanner Tymor yr Hydref a Thoriad y Nadolig 2024.

## 6 Trefniadau Cyflwyno

### 6.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn, Cwestiynau Ysgrifenedig a gwelliannau i'r Bil Seilwaith (Cymru), pe bai'r egwyddorion cyffredinol yn cael eu cytuno, yn ystod toriad y Nadolig.

# 7 Gwaith Gweithdrefnol

## 7.1 Diwygio'r Senedd: Parodrwydd gweithdrefnol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar barodrwydd gweithdrefnol ar gyfer diwygio'r Senedd a chytunodd mewn egwyddor i ddechrau ystyried meysydd o ddiwygio gweithdrefnol yn ystod hydref 2024.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i archwilio'r posibilrwydd o gynnal sesiynau gweithdy gydag Aelodau sydd â diddordeb yn ystod Gwanwyn 2024, er mwyn llywio datblygiad y gwaith hwn.